
Canllawiau i Flynyddoedd 3 a 4 Cyfrwng Cymraeg ac Ysgolion Trawsieithol




Her ddarllen hwyliog sy'n sbarduno darllen er pleser i blant oed cynradd Cymru

*A fun reading challenge that encourages reading for pleasure for primary-age children in Wales*


# GORNEST LYFRAU 2024–25















CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

# Cynnwys Contents


| | | tudalen page |
|---|---|---|
| **Beth yw Gornest Lyfrau?** | What is 'Gornest Lyfrau'? | **3** |
| **Sut mae'n gweithio?** | How does it work? | **4** |
| **Rhestr Ddarllen** | Reading List | **6** |
| **Rowndiau Sirol:** Y Drafodaeth, Enghreifftiau o bwyntiau trafod posib, Hysbyseb Hyrwyddo | County Rounds: Discussion, Examples of possible discussion points, Promotional Advert (video clip) | **8** |
| **Y Rownd Genedlaethol** | The National Round | **11** |
| **Meini Prawf ar gyfer y tasgau creu Broliant a Chlawr** | Criteria for the Design a New Blurb and Cover tasks | **12 + 13** |
| **Amserlen 2023–24** | Timetable 2023–24 | **14** |

# Beth yw Gornest Lyfrau?

Prosiect blynyddol sydd yn annog darllenwyr ifanc Blynyddoedd 3–6 i ddarllen er pleser, trafod y llyfrau maen nhw'n eu darllen, a mwynhau paratoi fideo creadigol fel grŵp neu ddosbarth yn seiliedig ar un o'r llyfrau sydd ar y rhestr ddarllen, yw'r Ornest Lyfrau.

Gall ysgolion gystadlu yn y categorïau isod ac mae rhestr ddarllen ar gael ar gyfer:

- Blynyddoedd 3 a 4 (cyfrwng Cymraeg) ac ysgolion Trawsieithol
- Blynyddoedd 5 a 6 cyfrwng Cymraeg
- Blynyddoedd 3–6 cyfrwng Saesneg

Mae canllawiau ar gael ar gyfer y tri chategori uchod.

Mae'n her ddarllen hwyliog i blant oed cynradd Cymru sy'n:

- annog plant i wirioni ar ddarllen a mwynhau llyfrau da
- meithrin agweddau cadarnhaol a hirdymor tuag at ddarllen
- cefnogi datblygiad llythrennedd emosiynol a meithrin sgiliau trafod, cyfathrebu a dadansoddi
- cyd-fynd â gofynion y Cwricwlwm trwy gynnig amrywiaeth o weithgareddau i unigolion a grwpiau ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad
- hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o lyfrau, awduron a darlunwyr
- dathlu safon eithriadol ym maes llenyddiaeth plant

Mae'r gystadleuaeth Gornest Lyfrau yn agored i Flynyddoedd 3 i 6 fel dosbarthiadau cyfan neu grwpiau darllen.

Bydd angen i'r ysgolion ddewis un llyfr o'r rhestr i'w drafod, ac un arall i'w gyflwyno fel hysbyseb. Cynhelir rownd sirol dan ofal y trefnwyr sirol, a bydd yr enillwyr sirol yn mynd ymlaen i'r rownd genedlaethol yn nhymor yr haf (gweler tud. 11).

Bydd yr ysgolion buddugol yn ennill tlws arbennig ac un o'r gwobrau canlynol:

- Gwobr 1af – gwerth £200 o lyfrau
- 2ail wobr – gwerth £150 o lyfrau
- 3edd wobr – gwerth £100 o lyfrau

# What is 'Gornest Lyfrau'?

This is an annual project that encourages young readers from years 3 to 6 to read for pleasure, discuss the books they read, and enjoy preparing a creative video, as a group or class, based on one of the books on the reading list.

There are 3 reading lists available for:

- Years 3–6 English medium
- Years 3 and 4 (Welsh medium) and Translingual schools
- Years 5 and 6 Welsh medium

Guidelines are available for the three categories above.

It's a fun reading challenge for primary-aged children in Wales which:

- encourages children to get hooked on reading and enjoy good books
- cultivates positive and long-term attitudes towards reading
- supports the development of emotional literacy and nurtures key skills such as communication and analysis
- supports the requirements of the Curriculum by offering a variety of activities to individuals and groups across the Areas of Learning and Experience
- promotes and raises awareness of books, authors and illustrators
- celebrates exceptional quality in the field of children's literature

The 'Gornest Lyfrau' competition is open to Years 3 to 6, and teachers are free to choose whether they would like to participate with whole classes or with reading groups.

Schools will need to choose one book from the list to discuss, and another to present as an advertisement. A county round will be held under the care of the county organisers, and the county winners will go on to the national round in the summer term (see more on page 11).

The winning school will win a special trophy and one of the following:

- 1st prize – £200 worth of books
- 2nd prize – £150 worth of books
- 3rd prize – £100 worth of books

# Sut mae'n gweithio?

Dyma 8 cam defnyddiol i esbonio'r cynllun a beth sydd angen i'r athrawon a'r plant ei wneud:

**Cam 1**

Cysylltwch â'ch trefnydd sirol i gofrestru ar gyfer y gystadleuaeth Gornest Lyfrau.

**Cam 2**

Porwch drwy'r detholiad o deitlau ar y rhestr briodol ac yna dewiswch eich teitlau o'r casgliad. Dewiswch un llyfr ar gyfer yr her drafod, ac un arall ar gyfer yr her hysbyseb llyfr.

**Cam 3**

Archebwch eich llyfrau o'r llyfrgell neu siop leol (ceir gwybodaeth bellach ar ddiwedd y canllaw hwn). Mae rhai o'r teitlau hefyd ar gael fel e-lyfrau.

**Cam 4**

Darllenwch a mwynhewch y llyfrau (fesul grŵp neu ddosbarth). Byddwch yn derbyn pecyn adnoddau o'r Cyngor Llyfrau sy'n cynnwys syniadau ar gyfer gweithgareddau sy'n gweithio ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad, yn ogystal â phroffiliau Adnabod Awdur.

**Cam 5**

Ar ôl darllen, dewiswch aelodau ar gyfer eich tîm / criw trafod (uchafswm o 4 aelod), a chriw hysbyseb hyrwyddo / clip fideo creadigol (nid oes cyfyngiad nifer ar gyfer yr her hon). Bydd cardiau 'sbardun trafod' ar gael ar gyfer y dasg drafod.

**Cam 6**

Ewch ati yn eich grŵp o **4 i drafod** y llyfr yn fanwl. Bydd angen creu / perfformio cyflwyniad ar ffurf **hysbyseb**. Gall y dosbarth cyfan fod yn rhan o greu a pherfformio hysbyseb ddigidol i annog darllenwyr eraill i fwynhau llyfr arall o'r rhestr.

# How does it work?

Here are 8 useful steps to explain the plan and what the teachers and children need to do:

**Step 1**

Contact your county organiser to register for the 'Gornest Lyfrau' competition.

**Step 2**

Browse through the selection of titles on the reading list and then choose your titles from the collection. Choose one book for the discussion challenge, and another for the book advertisement challenge.

**Step 3**

Order your books from the library or local bookshop (further information can be found at the end of the guide). Some of the titles are also available as e-books.

**Step 4**

Read and enjoy the books (as a group or class). You will receive a resource pack from the Books Council which includes ideas for activities that work across the 6 Areas of Learning and Experience, as well as Get to Know the Author profiles.

**Step 5**

After reading, choose members for your team / discussion group (maximum 4 members), and promotional advertisement group / creative video clip (there is no maximum number for this element of the project). Prompts will be provided for the discussion task.

**Step 6**

Discuss the book in detail as a **group of 4**. It will be necessary to creat / perform a presentation in the form of an **advertisment** to encourage other readers to enjoy another book from the list. Whole classes can take part in the advertisement task. Further guidance is provided below.

**Cam 7**

Bydd eich trefnydd sirol yn cysylltu â chi er mwyn trefnu dyddiad ar gyfer y rowndiau sirol. Mae'n ddigon posib y bydd y rhain yn cael eu cynnal dros Teams.

**Cam 8**

Bydd y timau llwyddiannus yn derbyn gwahoddiad i'r rownd derfynol. Bydd angen dewis uchafswm o **8 aelod** i fynychu rownd genedlaethol Gornest Lyfrau yn nhymor yr haf – 4 ar gyfer y criw trafod a 4 ar gyfer yr heriau ychwanegol, sef ysgrifennu broliant (uchafswm o 2), a darlunio clawr (uchafswm o 2). Ar gyfer y rownd genedlaethol mae croeso i'r grŵp trafod drafod llyfr gwahanol. Gall hwn fod yn hunanddewisiad neu'n llyfr arall o'r rhestr ddarllen.

**Step 7**

Your county organiser will contact you to arrange a date for the county rounds. These will most likely be hosted on Teams.

**Step 8**


The successful teams will receive an invitation to the final round. A maximum of **8 members** will need to be selected to attend the national round of the Gornest Lyfrau in the summer term – 4 for the discussion group and 4 for the additional challenges: namely writing a blurb (maximum of 2), and illustrating a cover (maximum of 2). The discussion group is welcome to discuss a different book which can be self-selected, or another book from the reading list for the national round.

# Rhestr Ddarllen

**ar gyfer Blynyddoedd 3 a 4 Cyfrwng Cymraeg ac Ysgolion Trawsieithol**

# Reading List

**for Translingual schools and Years 3 and 4 Welsh medium**





**Enw | Name:** *Chwedlau'r PySgwod*
**Awdur | Author:** Anni Llŷn
**Gwasg | Publisher:** Gwasg Carreg Gwalch

**Disgrifiad:** Gutun y Gragen Las sy'n teleportio, Brian y Cranc Brown sy'n ddawnsiwr gwych, Lobo'r Cimwch a'i sgiliau torri gwynt, a Nin y Cranc-ninja – daw pawb at ei gilydd i achub eu ffrindiau dan y don.

**Description:** A humorous story about a crew of talented sea creatures, including Brian the Brown Crab, Lob the Lobster and Nin the Ninja-crab, who join forces to help their underwater friends.

**ISBN:** 9781845279240 (1845279247)
**Pris | Price:** £7.00





**Enw | Name:** *Sara Mai ac Antur y Fferm*
**Awdur | Author:** Casia Wiliamr
**Gwasg | Publisher:** Y Lolfa

**Disgrifiad:** Mae Sara Mai yn ôl, a'r tro hwn mae Blwyddyn 5 yn mynd ar drip diwedd tymor i fferm gyfagos. Ochr yn ochr â lluniau gan Gwen Millward, ceir y doniol a'r dwys yng nghwmni llond gwlad o anifeiliaid.

**Description:** Sara Mai is back, and this time Year 5 go on an end of term trip to a nearby farm. Alongside illustrations by Gwen Millward, we are presented with the humorous and earnest in the company of a full array of animals.

**ISBN:** 9781800993945 (1800993943)
**Pris | Price:** £5.99

Hefyd gael fel e-lyfr
Also available as an e-book





**Enw | Name:**
Anturiaethau Mistar Urdd
**Awdur | Author:** Mared Llwyd
**Gwasg | Publisher:** Y Lolfa

**Disgrifiad:** Anodd credu nad oes gan Mistar Urdd lyfr yn dweud ei hanes! Gyda'r Urdd wedi dathlu ei chanmlwyddiant yn 2022, dyma gyfrol sy'n dod â'r cymeriad rhwng dau glawr o'r diwedd. Mae'r nofel graffig hon yn cynnwys tair stori gartŵn – 'Mistar Urdd a'r Allwedd Goll', 'Mistar Urdd yn Llangrannog' a 'Mistar Urdd yng Nglan Llyn'. Llyfr lliwgar i blant o bob oed!

**Description:** With Urdd Gobaith Cymru (the Welsh League of Youth) having celebrated its centenary in 2022, this volume brings the loveable character Mistar Urdd to life within one volume. It comprises three cartoon stories in graphic style – 'Mistar Urdd a'r Allwedd Goll', 'Mistar Urdd yn Llangrannog' and 'Mistar Urdd yng Nglan Llyn'. A colourful book for children of all ages!

**ISBN:** 9781800992160 (1800992165)
**Pris | Price:** £4.99





**Enw** | **Name:** *Gardd Gwenno*
**Awdur** | **Author:** Isla McGuckin
**Gwasg** | **Publisher:** Graffeg

**Disgrifiad:** Mae Gwenno'n byw mewn stafell lwyd, ddiflas, mewn tŷ sydd ddim yn gartref, ond mae'n breuddwydio am fywyd gwell… yn llawn mannau hapus, tawel… a rhywle i chwarae. Ond mae pob hedyn mae Gwenno'n ei blannu yn gwrthod gwreiddio, ac mae ei breuddwydion yn mynd yn bellach o'i chyrraedd.

**Description:** Gwenno and her mother have been housed in temporary accommodation. Promised a brighter future by her mother, Gwenno finds her life there to be filled with things that are old, broken and impersonal. She longs for her own things and for some beauty in her life but experiences only frustration and disappointment – until one day she plants some seeds…

**ISBN:** 9781802586053 (1802586059)
**Pris** | **Price:** £7.99

Hefyd gael fel e-lyfr
Also available as an e-book




**Enw** | **Name:** Enwogion o Fri: *Betty – Bywyd Penderfynol Betty Campbell*
**Awdur** | **Author:** Nia Morais
**Gwasg** | **Publisher:** Broga

**Disgrifiad:** Cyfrol yn y gyfres Enwogion o Fri am gyfraniad pwysig Betty Campbell – prifathrawes groenddu gyntaf Cymru – i'n hanes fel cenedl. Pwrpas y gyfres yw goleuo plant Cymru am gyfraniad unigolion o Gymru i'n diwylliant, a hynny mewn nifer o feysydd amrywiol.

**Description:** Read about Betty Campbell's valuable contribution to our culture as Wales' first Black headteacher. Another book in the popular Enwogion o Fri series.

**ISBN:** 9781914303319 (1914303318)
**Pris** | **Price:** £5.99




**Enw** | **Name:** Fferm Cwm Cawdel: *Digon o Sioe*

**Awdur** | **Author:** Gwennans Evans
**Gwasg** | **Publisher:** Gwasg Carreg Gwalch

**Disgrifiad:** Dydy Ffion y ffermwraig ddim yn gallu mynd ar ei gwyliau, oni bai ei bod hi'n mynd â'r holl wartheg gyda hi. Does dim amdani felly ond gwyliau gwirion i bawb! Dewch i ymuno â Ffion, Fflei a'r gwartheg direidus wrth iddyn nhw fwynhau'r holl gyffro yn y Sioe Fawr!

**Description:** Ffion the farmer is unable to go on holiday without taking her stock of cows with her, resulting in a hilarious holiday for all! Join Ffion, Fflei and the cows as they enjoy all the excitement of the Royal Welsh Show.

**ISBN:** 9781845279226 (1845279220)
**Pris** | **Price:** £6.00

## Rowndiau Sirol

### Y Drafodaeth

- Prif nod yr her hon yw dangos bod y criw yn gallu trafod y cymeriadau, digwyddiadau, themâu a negeseuon y llyfr, ynghyd â'r profiad o ddarllen. Mae enghreifftiau o'r math o bwyntiau i'w hystyried wrth drafod ar y dudalen nesaf.
- **Nid paratoi / dysgu sgript trafodaeth o flaen llaw yw'r bwriad.**
- Mae disgwyl i bob aelod gyfrannu at y drafodaeth ac ymateb i sylwadau ei gilydd, ac i gwestiynau penagored a sylwadau'r beirniad, lle bo'n briodol.
- Bydd 4 aelod ym mhob tîm trafod.
- Bydd y sesiwn drafod gyda'r beirniad yn para tua 8 munud; bydd y beirniad yn rhoi munud o rybudd cyn diwedd y drafodaeth.
- Byddwn yn darparu cardiau 'sbardun trafod' i gefnogi'r drafodaeth.

### Am beth fydd y beirniad yn chwilio?

### Gwybodaeth

Gwybodaeth drylwyr am gynnwys y llyfr.

Y gallu i fynd dan groen y llyfrau, y stori a'r cymeriadau, lle mae hynny'n briodol.

Dealltwriaeth dda o neges a themâu'r llyfr.

Cyfeirio at ddarllen ehangach y tu hwnt i ofynion llyfrau'r gystadleuaeth, lle mae hynny'n briodol.

### Mynegi Barn

Mynegi barn yn glir gan roi rhesymau gonest a theg.

Y gallu i holi, cytuno, ateb, anghytuno a herio'n gwrtais, lle mae hynny'n briodol.

Gwrando ac adeiladu ar sylwadau ei gilydd.

Cynnig sylwadau sy'n berthnasol i sylwadau eraill.

### Trafod fel Grŵp

Y gallu i drafod yn annibynnol fel grŵp.

Cyfraniad cyfartal a chytbwys gan bob aelod o'r grŵp.

Trafod byrlymus.

Gallu ymateb i gwestiynau sy'n codi o'r drafodaeth.

### Cywirdeb Iaith a Naturioldeb

Defnyddio geirfa, ymadroddion a chystrawennau Cymraeg.

**Rhoddir 50% o'r marciau am y trafod yn y rownd sirol, a 40% o'r marciau am y trafod yn y rownd genedlaethol.**

## County Rounds

### The Discussion

- The main aim of this challenge is to show that the group can discuss the characters, events, themes and messages of the book, along with the reading experience. There are examples of the type of points to consider whilst preparing for the discussion on the next page.
- **The intention is not to prepare / learn a discussion script in advance.**
- All members are expected to contribute to the discussion and respond to each other's comments, open-ended questions, and the judge's comments where appropriate.
- There will be 4 members in each discussion team.
- The discussion session with the judge will last about 8 minutes; the judge will give a minute's warning before the end of the discussion.
- We will provide prompts to support the discussion.

### What will the judge be looking for?

### Information

Thorough knowledge of the book's content.

The ability to delve into the book(s), story, and characters, where appropriate. A good understanding of the book's message and themes.

Refer to wider reading beyond the requirements of the competition books, where appropriate.

### Expressing Opinions

Express opinions clearly, giving honest and fair reasons.

The ability to ask, agree, disagree, answer, and challenge politely, where appropriate.

Listen and build on each other's comments.

Offer comments that are relevant to other comments.

### Discuss as a Group

The ability to discuss independently as a group.

An equal and balanced contribution from all members of the group.

A lively discussion.

Being able to respond to questions that arise from the discussion.

### Language Accuracy and Naturalness

Demonstrate good use of vocabulary, expressions and book terminology.

**50% of the marks are given for the discussion in the county round, and 40% of the marks for the discussion in the national round.**

# Rowndiau Sirol

## Enghreifftiau o bwyntiau i'w trafod

- Wyt ti'n hoffi'r llyfr?
- Beth wyt ti'n hoffi am/yn y llyfr?
- Wyt ti wedi darllen unrhyw lyfrau tebyg i hwn?
- Disgrifiwch y plot.
- Disgrifiwch y cymeriadau.
- Ble mae'r stori'n digwydd?
- Oes gen ti hoff gymeriad?
- Wyt ti eisiau darllen y llyfr eto? Pam?
- Oedd unrhyw beth wnest ti ddim ei hoffi am/yn y llyfr?
- Wyt ti eisiau argymell y llyfr hwn i blant eraill? Pam?
- A hoffet ti gwrdd ag unrhyw un o'r cymeriadau? Pam?
- Beth wyt ti wedi ei ddysgu trwy ddarllen y llyfr hwn?
- Beth yw'r peth pwysicaf am y llyfr yma?
- Beth yw thema'r llyfr?
- Wyt ti'n hoffi'r lluniau yn y llyfr? Pam?

# County Rounds

## Enghreifftiau o bwyntiau i'w trafod

- Do you like the book?
- What do you enjoy about the book?
- Have you read any books like this before?
- Describe the plot.
- Describe the characters.
- Where does the story take place?
- Do you have a favourite character?
- Would you like to read the book again? Why?
- Was there anything you didn't like about/in the book?
- Would you recommend this book to other children? Why?
- Would you like to meet any of the characters? Why?
- What have you learned by reading this book?
- What is the most important thing about this book?
- What is the theme of the book?
- Do you like the pictures in the book? Why?

# Rowndiau Sirol

## Hysbyseb Hyrwyddo

– un o'r llyfrau ar y rhestr.

- Prif nod yr her hon yw dangos creadigrwydd a dealltwriaeth o gynnwys y llyfr. Bydd angen creu clip fideo yn hyrwyddo'r llyfr er mwyn apelio at gynulleidfa o blant o'r un oedran a'u hannog i'w brynu a'i ddarllen.
- Caniateir uchafswm o 3 munud ar gyfer y clip fideo.
- Nid oes rhaid i'r aelodau sy'n creu'r clip fideo fod yr un rhai â'r disgyblion fydd yn cymryd rhan yn y drafodaeth: mae'r dosbarth cyfan yn gallu cymryd rhan yn y gweithgaredd hwn.
- Tynnir un marc am bob 30 eiliad dros y 3 munud a ganiateir.
- Gallwch ffilmio perfformiad llwyfan NEU gallwch ffilmio mewn lleoliadau gwahanol – byddwch mor greadigol ag y mynnwch!
- Gallwch ddefnyddio sgrin werdd neu feddalwedd golygu fideo syml clip fideo (ar ffurf MP4). Ni fydd ansawdd y golygu yn cael ei feirniadu.

## Am beth fydd y beirniad yn chwilio?

- Clip fideo sy'n cyfleu naws y llyfr ac yn annog y gynulleidfa darged i fynd ati i ddarllen y llyfr.
- Perfformiad bywiog gydag effeithiau dramatig amrywiol.
- Y gallu i daflu lleisiau ac i gyfleu neges yn glir – lleisiau uchel, clir a hyderus.
- Clip sy'n dal sylw ac yn llawn bwrlwm.
- Defnydd effeithiol o eirfa ar gyfer perswadio a hyrwyddo'r themâu o fewn y llyfr.
- Y gallu i weithio fel tîm – cyfle i bob unigolyn i gyfrannu at y clip fideo.
- Caniateir y defnydd o feddalwedd golygu fideo syml gan y disgyblion.
- Ni fydd ansawdd y golygu yn cael ei feirniadu.

**Rhoddir 50% o'r marciau am yr hysbyseb yn y rownd sirol, a 40% o'r marciau am yr hysbyseb ar fideo yn y rownd genedlaethol.**

# County Rounds

## Promotional Advertisement

– one of the books on the list.

- The main aim of this challenge is to show creativity and understanding of the content of the book. It will be necessary to create a video clip promoting the book, ensuring that it appeals to an audience of children of the same age in order to encourage them to buy and read it.
- A maximum of 3 minutes is allowed for the video clip.
- The members who create the video clip do not have to be the same as the pupils who will take part in the discussion: the whole class can take part in this activity.
- One mark is deducted for every 30 seconds over the 3 minutes allowed.
- You can film a stage performance OR you can film in different locations – be as creative as you like!
- You can use green screen or simple video editing software video clip (in MP4 format). The quality of the editing will not be judged.

## What will the judge be looking for?

- A video clip that conveys the feel of the book and encourages the target audience to read the book.
- A lively performance with various dramatic effects.
- The ability to project and convey a message clearly: loud, clear and confident voices.
- A clip that captures attention and is full of enthusiasm.
- Effective use of vocabulary to persuade and promote the themes within the book.
- The ability to work as a team: an opportunity for each individual to contribute to the video clip.
- Pupils are allowed to use simple video editing software.
- The quality of the editing will not be judged.

**50% of the marks are given for the advert in the county round, and 40% of the marks for the video advert in the national round.**

# Y Rownd Genedlaethol

Cyfle gwych i ddysgwyr ddod at ei gilydd i drafod llyfrau, profi'r wefr o fynychu gweithdy awdur a gwylio eu hysbysebion ar y sgrin fawr! Cyn y diwrnod, bydd angen i athrawon ddewis **uchafswm o 8 aelod** ar gyfer y tîm.

Rydyn ni'n awgrymu 2 lond car i deithio i Aberystwyth i osgoi gorfod llogi bws.

- **4 aelod ar gyfer y dasg drafod** (llyfr o'r rhestr neu hunanddewisiad), sef trafodaeth rydd yn ogystal â chwestiynau gan y beirniaid. Bydd y drafodaeth yn para 8 munud.
  Bydd cardiau 'sbardun trafod' i ddechrau brawddegau yn cael eu cynnig i ysgolion trawsieithol ar gyfer y dasg drafod.
- **2 aelod ar gyfer darlunio clawr blaen newydd ar gyfer llyfr.** Bydd y Cyngor Llyfrau yn darparu briff i ddysgwyr ar y dydd ac yn darparu offer darlunio.

  Bydd y dasg hon yn para 45 munud. Gweler y meini prawf isod (tudalen 13).
- **2 aelod ar gyfer ysgrifennu broliant.** Bydd y Cyngor Llyfrau yn darparu briff i ddysgwyr ar y dydd. Bydd offer ysgrifennu a geiriaduron ar gael.

  Bydd y dasg hon yn para 45 munud. Gweler y meini prawf isod (tudalen 12).

Bydd y timau sy'n cyrraedd y rownd genedlaethol yn gallu gwylio fideos ei gilydd yn ystod y sesiwn sinema a chael ymuno mewn gweithdy gydag awdur.

**Rhoddir 40% o'r marciau am y clip fideo, 40% am y trafod, 10% am y broliant, a 10% am y clawr.**

Bydd yr ysgolion buddugol yn ennill tlws arbennig ac un o'r gwobrau canlynol:

- Gwobrau 1af – gwerth £200 o lyfrau
- 2ail wobr – gwerth £150 o lyfrau
- 3edd wobr – gwerth £100 o lyfrau

# The National Round

A great opportunity for learners to come together to discuss books, experience the thrill of attending an author's workshop and watch their adverts on the big screen! Before the day, teachers will need to choose a **maximum of 8 members** for the team.

We recommend travelling to Aberystwyth in two cars to avoid hiring a mini bus.

- **4 members to discuss a book** (from the reading list or a self selected book). The discussion is a combination of questions from the judge and free discussion from the team. The discussion will last 8 minutes. Prompts will be provided for translingual schools during the discussion task.
- **2 members for drawing a new front cover** for a book. The Books Council will provide learners with a brief on the day and provide resources.

  This task will last 45 minutes. Please see the criteria below (page 13).
- **2 members for writing a blurb.** The Books Council will provide a brief for learners on the day. Writing resources and dictionaries will be available.

  This task will last 45 minutes. See the criteria below (page 12).

The teams that reach the national round will be able to watch each other's videos during the cinema session and join in an author's workshop.

**40% of the marks are given for the video clip, 40% for the discussion, 10% for the blurb, and 10% for the cover.**

The winning schools will win a special trophy and one of the following prizes:

- 1st prizes – £200 worth of books
- 2nd prize – £150 worth of books
- 3rd prize – £100 worth of books

# Meini Prawf – Ysgrifennu Broliant

**Dyma enghraifft o'r Meini Prawf a fydd ar gael yn y Rownd Genedlaethol. Darperir copi o'r llyfr, yn ogystal ag adnoddau fel papur a beiros.**

Rydyn ni eisiau i chi ysgrifennu broliant newydd i'r llyfr yma ...

- sy'n rhoi syniad da o'r llyfr heb ddweud gormod – digon i dynnu sylw'r darllenwyr!
- sy'n cynnwys geirfa amrywiol a diddorol
- sy'n amlygu o leiaf un thema neu neges bwysig o'r llyfr
- sydd ddim yn fwy na 100 o eiriau
- sy'n annog darllenwyr i godi'r llyfr
- sy'n dangos creadigrwydd a syniadau gwreiddiol

Mae gennych chi tua 45 munud i gwblhau'r dasg hon.

# Criteria – Design a New Blurb

**Here is an example of the Criteria that will be available at the National Round. A copy of the book, as well as resources such as paper and pens, will be provided.**

We want you to write a new blurb for this book which ...

- gives a good idea of the book without saying too much – enough to draw readers' attention!
- includes varied and interesting vocabulary
- highlights at least one important theme or message from the book
- is no more than 100 words
- encourage readers to pick up the book
- show creativity and original ideas

You have about 45 minutes to complete this task.

## Meini Prawf – Darlunio Clawr

**Dyma enghraifft o'r Meini Prawf a fydd ar gael yn y Rownd Genedlaethol. Darperir copi o'r llyfr, yn ogystal ag adnoddau fel papur a phensiliau.**

Rydyn ni eisiau i chi greu clawr newydd i'r llyfr yma ...

- sy'n cyfleu'r stori ond heb ddweud gormod – digon i dynnu sylw'r darllenwyr!
- sy'n ddeniadol a lliwgar
- sy'n greadigol
- sy'n amlygu o leiaf un thema neu neges bwysig o'r llyfr
- sy'n dangos syniadau gwreiddiol

Mae gennych chi tua 45 munud i gwblhau'r dasg hon.

## Criteria – Design a New Book Cover

**Here is an example of the Criteria that will be available at the National Round. A copy of the book, as well as resources such as paper and pencils, will be provided.**

We want you to create a brand new book cover for this book which ...

- conveys the story but without saying too much – just enough to draw readers' attention!
- is attractive and colorful
- is creative
- highlights at least one important theme or message from the book
- shows original ideas

You have about 45 minutes to complete this task.

## Amserlen 2024–25

Rhannu rhestr o'r llyfrau a gwybodaeth am y gystadleuaeth
**Medi/Hydref 2024**

Dyddiad olaf i gofrestru gyda'ch trefnydd lleol
**5 Rhagfyr 2024**

Rowndiau sirol i'w cwblhau erbyn
**Dydd Gwener 23 Mai 2025**

Trefnwyr sirol yn hysbysu'r Cyngor Llyfrau o'r canlyniadau sirol erbyn
**Dydd Gwener 30 Mai 2025**

Ysgolion i rannu fideos gyda'r Cyngor Llyfrau
**6 Mehefin 2025**

Rowndiau Cenedlaethol:

- Blynyddoedd 3 a 4 Ysgolion Cyfrwng Cymraeg ac Ysgolion Trawsieithol
**17 Mehefin 2025**
- Blynyddoedd 5 a 6 Cyfrwng Cymraeg
**18 Mehefin 2025**
- BookSlam Blynyddoedd 5 a 6 (cyfrwng Saesneg)
**19 Mehefin 2025**

**Bydd y rowndiau cenedlaethol yn cael eu cynnal yn Arad Goch, Aberystwyth, a bydd angen i dimau gyrraedd am 9.30 y bore.**

## Timetable 2024–25

The Books Council to share a list of the books and information about the competition
**September/October 2024**

Last date to register with your local organiser
**5 December 2024**

County rounds to be completed by
**Friday 23 May 2025**

County organisers inform the Books Council of the county results by
**Friday 30 May 2025**

Schools to share videos with the Books Council
**6 June 2025**

National Rounds:

- Years 3 and 4 Welsh Medium and Translingual Schools
**17 June 2025**
- Years 5 and 6 Welsh Medium
**18 June 2025**
- Years 5 and 6 BookSlam (English medium)
**19 June 2025**

**The finals will be held in Arad Goch, Aberystwyth, and teams will need to arrive at 9.30 in the morning.**

# Sut i archebu'r llyfrau

- O'ch llyfrwerthwr neu lyfrgell leol.
- Ar gwales.com. Byddwn yn talu comisiwn i siop lyfrau o'ch dewis.
- Trwy Swyddog Ysgolion y Cyngor Llyfrau. Byddwch hefyd yn cefnogi eich siop lyfrau leol: shoned.davies@llyfrau.cymru

**Cofiwch gysylltu â ni os oes gennych chi unrhyw gwestiynau:**


- **E-bost:** plant@llyfrau.cymru
- **Cyfeiriad**:
  Adran Llyfrau Plant a Hyrwyddo Darllen, Cyngor Llyfrau Cymru, Castell Brychan, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2JB
- **Ffôn:** 01970 624151


# How to order your books

- From your local bookshop or library.
- Via gwales.com. We will pay a commission to a bookshop of your choice.
- Via Shoned, School Officer for the Books Council of Wales. You will also be supporting your local bookshop: shoned.davies@llyfrau.cymru

**Please contact us if you have any questions:**


- **Email:** plant@llyfrau.cymru
- **Address**:
  Dept. of Children's Books and Reading Promotion, Books Council of Wales, Castell Brychan, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2JB
- **Phone:** 01970 624151